# JONES, EDWARD (1782 - 1855), '3ydd,' gweinidog Wesleaidd

**Enw:** Edward Jones
**Dyddiad geni:** 1782
**Dyddiad marw:** 1855
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Wesleaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Llantysilio-yn-Iâl yn 1782. Perthynai'n wreiddiol i'r Methodistiaid Calfinaidd, ond troes at y Wesleaid; dechreuodd bregethu yn 1805, ac anfonwyd ef yn genhadwr i Ferthyr Tydfil; efo oedd y pregethwr Wesleaidd Cymraeg cyntaf (1808) i gael ei osod yn Llundain. Teithiodd yn ddyfal bron ar hyd ei oes. Bu farw yn Llanidloes, 22 Gorffennaf 1855, yn 73 oed.

Sgrifennodd lawer i'r *Eurgrawn*, a bu'n olygydd iddo, 1829-35; cyhoeddodd gasgliad o emynau, a chyfieithiad, 1833, o bregethau John Wesley. Eithr fel dadleuydd diwinyddol y gwnaeth ei brif enw. Yn 1812, cyfieithodd lyfr Thomas Oliver, *Cyflawn Wrthbrawf i'r Athrawiaeth o Barhad Diammodol mewn Gras*; yn 1819 cyhoeddodd *Amddiffynydd y Gwir*, yn ateb i bamffledyn gan John Parry o Gaerlleon Fawr, 1818; ac yn 1829 neu 1830 *Lladmerydd* - a atebwyd yn bur ffyrnig gan Edward Jones o Faes-y-plwm yn ei *Gwialen i Gefn yr Ynfyd*, 1831. Bu iddo hefyd ran yn nadleuon mewnol ei gyfundeb - gweler pen. vi o A. H. Williams, *Welsh Wesleyan Methodism*, ac ymhellach t. 230.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Y Bywgraffydd Wesleyaidd yn cynwys bras-hanes am un a thriugain o weinidogion Wesleyaidd Cymreig yn nghyda 35 o weinidogion a gwyr lleyg Saesonig* (Machynlleth 1866)

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868), 338-42, 356-60

A. H. Williams, op. cit. (mynegai)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732959

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu